



CYNGOR

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD DRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD IAU 26 IONAWR 2022, AM 5.00PM

PRESENNOL:

Cynghorydd C. Andrews - Maer

Cynghorwyr:

M. Adams, Mrs E.M. Aldworth, A.P. Angel, P.J. Bevan, C. Bezzina, C. Bishop, A. Collis, S. Cook, D. Cushing, C. Cuss, W. David, D.T. Davies, M. Davies, K. Dawson, N. Dix, C. Elsbury, K. Etheridge, M. Evans, A. Farina-Childs, Mrs C. Forehead, Miss E. Forehead, J.E. Fussell, A. Gair, N. George, C. Gordon, R.W. Gough, L. Harding, D. Havard, A. Hussey, M.P. James, L. Jeremiah, G. Johnston, Mrs B.A. Jones, S. Kent, G. Kirby, Mrs A. Leonard, Ms P. Leonard, C.P. Mann, P. Marsden, B. Miles, S. Morgan, B. Owen, Mrs T. Parry, Mrs L. Phipps, D.W.R. Preece, J. Pritchard, J. Ridgewell, J.E. Roberts, R. Saralis, J. Scriven, J. Simmonds, S. Skivens, Mrs E. Stenner, J. Taylor, A. Whitcombe, R. Whiting, L G. Whittle, T. Williams, W. Williams, B. Zaplatynski

Ynghyd â:-

C. Harrhy (Prif Weithredwr), M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a'r Amgylchedd), D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Ariannol a Swyddog Adran 151), J. Morgan (Rheolwr Safonau Masnach, Trwyddedu a Chofrestryddion), L. Morgan (Rheolwr Trwyddedu), D. Beecham (Rheolwr Gwasanaethau Etholiadol), L. Lane (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a Dirprwy Swyddog Monitro), E. Sullivan (Uwch Swyddog Gwasanaethau'r Pwyllgor).

Croesawodd y Maer y Prif Weithredwr, Mrs Christina Harrhy yn ôl i'r Cyngor, a diolchodd y Prif Weithredwr i'r Aelodau a'r Swyddogion am y negeseuon caredig a oedd wedi golygu cymaint iddi hi a'i theulu. Cofnododd y Prif Weithredwr ei diolch hefyd i Mr Dave Street am gamu i'r adwy mor fedrus yn ystod ei habsenoldeb.

Mynegodd y Maer, ar ran y Cyngor, ei chydymdeimlad dwysaf â'r Cynghorydd J. Pritchard y bu farw ei fam yr wythnos hon.

RECORDIO, FFILMIO A THREFNIADAU PLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd y rhai a oedd yn bresennol bod y cyfarfod yn cael ei ffilmio ond na fyddai'n cael ei ffrydio'n fyw, fodd bynnag, byddai recordiad ar gael ar ôl y cyfarfod drwy wefan

y Cyngor – [Cliciwch Yma i'w Weld](#). Dywedodd y byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud drwy Microsoft Forms.

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyngorwyr J. Bevan, D.T. Hardacre, D. Harse, A.G. Higgs, V. James, Mrs G.D. Oliver, D.V. Poole, Mrs D. Price, Mrs M.E. Sargent, J. Stone, G. Simmonds, C. Thomas.

Wrth nodi'r ymddiheuriadau, dymunodd y Maer, ar ran y Cyngor, wellhad buan i'r Dirprwy Faer y Cyngorydd J. Stone yn dilyn cwmp diweddar.

2. CYHOEDDIADAU'R MAER

Llongyfarchodd y Maer Owen Roe ddisgybl Blwyddyn 7 yn Ysgol Heolddu am ei ddyluniad buddugol rhagorol ar gyfer cystadleuaeth Cerdyn Nadolig y Maer eleni a dywedodd wrth y Cyngor y bu'n dasg anodd iawn beirniadu'r gystadleuaeth hon oherwydd bod safon y cardiau wedi bod mor uchel.

Mynegodd y Maer ei siom nad oedd wedi gallu mynychu'r Gyngerdd Nadolig gan Fand Pres Bedwas Trethomas a Machen a Chyflwyniad Medal yr Ymerodraeth Brydeinig a llongyfarchodd bawb a dderbyniodd anrhydedd. Nid oedd wedi gallu bod yn bresennol am ei bod wedi gorfod hunanynysu yn dilyn cyswllt COVID-19, ond ei bod wedi gallu cyfleu negeseuon yn eu llongyfarch. Roedd hefyd wedi gallu anfon neges fideo a blodau at breswylwr yng Nghartref Preswyl Tŷ Iscoed a oedd wedi dathlu pen-blwydd yn 100 oed.

Yn olaf, diolchodd y Maer i bawb a oedd wedi trefnu a chyfrannu at Apêl Ymgyrch Siôn Corn eleni, a fu'n llwyddiant ysgubol unwaith eto.

3. DATGANIAD GAN ARWEINYDD Y CYNGOR

Darparodd y Cyngorydd P. Marsden ddatganiad ar nifer o faterion allweddol y Cyngor.

O ran cynigion cyllideb 2022/23, a gymeradwywyd gan y Cabinet yr wythnos diwethaf, cynghorwyd y Cyngor ynghylch y gyllideb feiddgar ac uchelgeisiol arfaethedig, sy'n cynnwys buddsoddiad o £10 miliwn wrth ddiogelu gwasanaethau rheng flaen rhag toriadau wrth i'r awdurdod adfer yn dilyn y pandemig parhaus. Roedd y gyllideb ddrafft hefyd yn cynnwys cynnydd arfaethedig o 2.5% i Dreth y Cyngor, sy'n llawer is na'r gyfradd chwyddiant a'r cynnydd lleiaf ers nifer o flynyddoedd.

Roedd yr Arweinydd o'r farn bod y gyllideb hon wirioneddol yn dangos eu bod yn 'Gofalu am Gaerffili', drwy gefnogi a diogelu'r gymuned yn ystod y cyfnodau anodd hyn a gofynnodd i'r Aelodau annog cymaint o bobl â phosibl i leisio eu barn a chymryd rhan yn ein hymgyngoriad parhaus ar y gyllideb.

Cynghorwyd y Cyngor fod rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru wedi'i chwblhau yn ddiweddar. Roedd y rhaglen flaenllaw hon wedi profi'r buddsoddiad sengl mwyaf erioed yn y cartrefi y mae'r Cyngor yn berchen arnynt yn y Fwrdeistref Sirol a bod dathliadau priodol yn cael eu cynllunio. Nodwyd bod cyfanswm o fwy na £260 miliwn wedi'i fuddsoddi drwy'r rhaglen; gan gynnwys adnewyddiadau mewnol ac allanol i gartrefi, addasiadau i wneud yn siŵr bod cartrefi yn diwallu anghenion tenantiaid unigol a gwelliannau amgylcheddol i wella ein cymunedau lleol.

Ni fu'r dasg o gyflawni rhaglen o'r maint hon, ar draws ein 10,660 o eiddo rhent yn gwbl ddiraffferth; yn benodol yn ystod y pandemig Covid-19 a manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle

hwn i ddiolch i bawb a fu'n gysylltiedig â chyflawni'r rhaglen hon ac i gydnabod cyfraniad sylweddol y Cyngorydd Lisa Phipps, yn ei rôl flaenorol fel yr Aelod Cabinet dros Dai.

O ran y sefyllfa coronafeirws bresennol, dylai Aelodau fod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu ailgyflwyno lefel rhybudd sero ar ddiwedd yr wythnos hon, o ganlyniad i'r darlun gwell ar hyd a lled Cymru. Mewn ymateb i'r heriau hyn, byddai'r Arweinydd yn parhau i weithio'n agos gyda'r Prif Weithredwr a'r Cabinet i ystyried yr effaith ar wasanaethau a chytuno ar ein camau nesaf. Cyngorwyd yr Aelodau fod y manylion yn parhau i gael eu trafod ac y byddai diweddariadau pellach i ddilyn, ond nid oedd yn rhagweld cynnydd sylweddol yn nifer y staff neu'r aelodau a fyddai'n dychwelyd i'r swyddfa yn y dyfodol agos. Bydd yn broses araf a chyson, gan gynyddu'r niferoedd yn raddol ac adolygu'r effaith yn rheolaidd.

Nododd yr aelodau fod Caerffili wedi methu cael eu coroni yn 'gyngor y flwyddyn' o drwch blewyn mewn seremoni ddiweddar a bod Christina Harrhy wedi'i chynnwys ar y rhestr fer ar gyfer y teitl clodwiw Prif Weithredwr y Flwyddyn a derbyniodd gymeradwyaeth uchel. Enillodd y Cyngorydd Kevin Etheridge deitl pencampwr cymunedol yn y gwobrau LGIU.

Wrth gloi ei datganiad, gwnaeth yr Arweinydd apêl arbennig i bob Aelod Etholedig a oedd yn bresennol oherwydd, yn anffodus, rydym yn gweld nifer gynyddol o Gyngorwyr ac Ymgeiswyr yn profi camdriniaeth, bygythiadau ac aflonyddwch. Mae hyn yn gwbl annerbyniol, ac mae'r math hwn o ymddygiad yn tanseilio egwyddorion rhyddid i lefaru, ymgysylltiad democrataidd a thrafodaeth.

Cyngorwyd y Cyngor ei bod yn sefyll ysgwydd yn ysgwydd ag Arweinwyr Grŵp eraill, y Cyngorydd Colin Mann a'r Cyngorydd Kevin Etheridge, i alw am derfynu camdriniaeth, bygythiadau ac aflonyddwch o unrhyw fath. Roedd yr addewid hwn wedi derbyn sylw helaeth yn lleol ac yn genedlaethol ac mae hyn yn arbennig o berthnasol cyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai.

Rydym wedi addo cymryd rhan mewn ymgyrch etholiad deg sy'n seiliedig ar ymgyrchu cadarnhaol a theilyngdod, yn hytrach nac ymosodiadau personol a difenwi unigolion. Rydym yn annog pob aelod etholedig ac ymgeisydd yn yr etholiad i ddod i wneud yr un peth. Yn ogystal, byddwn yn 'galw allan/herio' unrhyw ymddygiad amhriodol o'r fath a bydd dull dim goddefgarwch at gamdriniaeth.

Pa bynnag liw gwleidyddol yr ydym yn ei gynrychioli, rydym i gyd yn sefyll gyda'n gilydd yn ein diben cyffredin o gynrychioli pobl ein Bwrdeistref Sirol. Rydym yma i amddiffyn ymosodiadau ar bolisiau a gweithdrefnau gwleidyddol, fodd bynnag, nid yw ymosodiadau personol ar unigolion yn dderbyniol ac ni fyddwn yn eu goddef. Nid dyna sut rydym yn cynnal ein busnes gwleidyddol yma yng Nghaerffili. Beth bynnag yw ein gwahaniaethau, rydym i gyd yn unedig o dan ymbarél 'Tîm Caerffili' – yn gweithio gyda'n gilydd er budd pawb.

Wrth gloi ei datganiad gofynnodd yr Arweinydd i bawb ymuno â'r mudiad hwn dros newid cadarnhaol.

4. DERBYN DEISEBAU O DAN REOL GWEITHDREFN 28(3)

Cyflwynodd y Cyngorydd R. Saralis ddeiseb ar ran Ystâd Penmaen i'r Cyngor yn gofyn i'r Cyngor wneud gwelliannau priffyrdd i sicrhau allanfa ddiogel i gerbydau o Ystâd Penmaen i gyffordd Vancouver Drive ac Oakdale Terrace.

Derbyniodd y Maer y ddeiseb a fyddai'n cael ei gweithredu yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor.

5. CYFLWYNO GWOBRAU

Cadarnhaodd y Maer fod dwy wobwr i'w cyflwyno i'r Cyngor.

Y Cynghorydd Kevin Etheridge – Gwobr Hyrwyddwr Cymunedol, Gwobrau Cyngorwyr Uned Gwybodaeth Llywodraeth Leol ac Eglwysi, Elusennau ac Awdurdodau Lleol 2021.

Gofynnodd yr Arweinydd i'r Cyngor ymuno â hi i longyfarch y Cynghorydd Kevin Etheridge. Ym mis Rhagfyr y llynedd gwobrwywyd Gwobr Hyrwyddwr Cymunedol i'r Cynghorydd Etheridge yng Ngwobrau Cyngorwyr Uned Gwybodaeth Llywodraeth Leol ac Eglwysi, Elusennau ac Awdurdodau Lleol 2021. Mae'r gwobrau hyn yn dathlu cyngorwyr lleol ar hyd a lled Cymru a Lloegr a derbyniodd y Cynghorydd Etheridge ei wobwr fawreddog fel cydnabyddiaeth o'i 'lefel aruthrol o ymrwymiad' a'i 'ymdrech yn arwain ymgyrchoedd llwyddiannus'. Derbyniodd 676 o enwebiadau ar gyfer y wobwr gan breswylwyr ar draws y Fwrdeistref Sirol ac ef oedd yr unig Cynghorydd o Gymru i gael ei enwebu ar gyfer y Wobr Hyrwyddwr Cymunedol.

Canmolwyd y Cynghorydd Etheridge hefyd am ei waith gyda Bowel Cancer UK yn codi ymwybyddiaeth o symptomau Canser y Coluddyn ac roedd yn eiriolwr brwd dros brofion sgrinio, ers ei ddiagnosis ei hun yn 2019.

Cydnabu'r Cyngor y Cynghorydd Etheridge a'i longyfarch ar ei gyflawniad aruthrol.

Cydnabod Aelodau o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar Gyflawni 40 Mlynedd o Wasanaeth Parhaus

Cydnabu'r Prif Weithredwr yr Aelodau o Staff hynny a oedd wedi cyflawni 40 mlynedd o wasanaeth parhaus gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a chynghorwyd y Cyngor y byddent yn derbyn taleb gwerth £250 a gwahoddiad i gael Te gyda'r Maer pan fyddai cyfyngiadau COVID yn caniatáu hynny. Mynegodd Arweinydd y Cyngor ei hedmygedd o ymroddiad ac ymrwymiad yr Aelodau o Staff hyn a oedd hefyd yn cynnwys Aelod o'r Tim Rheoli Corfforaethol.

6. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cynghorydd W. David fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn cysylltiad ag Eitem Rhif 9 ar yr Agenda – Hysbysiad o Gynnig - Ail Gartrefi am ei fod yn berchen ar ail gartref ac felly ni fyddai'n cymryd rhan yn y drafodaeth na'r penderfyniad.

7. COFNODION – CYNGOR – 16 TACHWEDD 2021

PENDERFYNWYD i gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2021 (cofnodion rhif 1-12) fel cofnod cywir.

8. DERBYN AC ATEB CWESTIYNAU A DDERBYNIWYD O DAN REOL GWEITHDREFNAU 10(4)

Cwestiwn gan y Cynghorydd K. Etheridge i'r Aelod Cabinet dros Isadeiledd ac Eiddo, y Cynghorydd J. Pritchard.

Gofyn i'r Aelod Cabinet gadarnhau nifer y cytundebau ysgol wedi'u gosod ar dendr ar hyn o bryd ac amlinellu'r mesurau sydd ar waith i ymdrin â phlant agored i niwed yn benodol o ran tacsis i'r ysgol, ac yn ôl, yn y Fwrdeistref Sirol a'r tu allan iddi. Hefyd, hoffwn i'r Aelod Cabinet roi gwybod a oes unrhyw oedi o ran eu cludiant.

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Isadeiledd ac Eiddo, y Cynghorydd. J. Pritchard.

Mae yna 17 contract ysgol allan i dendr ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor yn profi diffyg o ran gweithredwyr sydd ar gael i gyflawni'r nifer o gontractau gofynnol, gyda rhai contractau yn cael eu tendro, ac yna'n cael eu hail-dendro sawl tro. Mae gwybodaeth ddangosol yn awgrymu mai'r prif reswm am hyn yw nifer y gyrwyr sydd ar gael yn y diwydiant trafndiaeth – ar gyfer gweithrediadau tacsis a bysys. Pan na all y Cyngor gyflawni'r gofyniad trafndiaeth, rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i rieni am yr oedi a achosir. Cynigir opsiynau teithio amgen pan fyddant ar gael e.e. tocyn ar y rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus; ac mewn rhai achosion cynigir ad-daliad i rieni.

Cwestiwn gan y Cynghorydd R. Saralis i'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Thai, y Cynghorydd S. Cook.

A all yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol a Thai esbonio'r hyn y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi'i wneud i sicrhau'r incwm uchaf posibl i drigolion cymwys drwy gydol COVID-19?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Thai, y Cynghorydd S. Cook.

Ar ddechrau'r pandemig fe ymatebodd y Cyngor ar unwaith, oherwydd cydnabu'n gyflym yr anawsterau ariannol a achoswyd gan COVID 19.

Ym mis Ebrill 2020 sefydlwyd llinell ffôn argyfwng yn gyflym a oedd yn cael ei gweithredu gan y staff Rhenti Tai a oedd yn darparu cymorth ariannol amrywiol i breswylwyr, ac nid oedd llawer ohonynt wedi wynebu anawsterau ariannol tebyg o'r blaen.

Sefydlwyd system cysylltu, casglu a dosbarthu Banc Bwyd canolog gan dîm Gofalu am Gaerffili i gefnogi'r ddarpariaeth gyda thalebau, rhoddion a dosbarthiadau i breswylwyr a oedd yn profi argyfwng ariannol. Sefydlwyd system brysbennu i gysylltu'r unigolyn â dosbarthwr talebau lleol a chafodd stoc ei ailgyflenwi a'i reoli'n ganolog drwy sicrhau rhoddion bwyd ac arian gan y sector preifat.

Ers mis Ebrill 2020, mae'r tîm wedi gwneud mwy na 2,000 o atgyfeiriadau i fanciau bwyd lleol i dderbyn parcel bwyd neu daleb tanwydd.

Yn ogystal, mae tîm Gofalu am Gaerffili wedi cefnogi, ariannu a datblygu nifer o gynlluniau FareShare sy'n cynnig bwyd am ddim neu am gost isel i aelodau eu cymuned leol, gan weithio gyda grwpiau cymunedol a sefydliadau. Sicrhawyd £250,000 o gyllid gan Lywodraeth Cymru i redeg cynllun grant bychan i gefnogi prosiectau ansicrwydd bwyd lleol. Mae'r tîm hefyd wedi cynghori pobl ar sut i gael cyfrif banc neu gyfrif undeb credyd.

Yn ystod y misoedd nesaf daeth yn glir bod agwedd adweithiol yn annigonol, a bod angen i Gaerffili roi strategaeth ragweithiol ar waith a oedd yn canolbwyntio ar sicrhau'r incwm mwyaf posibl i breswylwyr.

Nodwyd adnoddau ychwanegol fel rhan o Gofalu am Gaerffili a chrëwyd tîm sicrhau'r incwm mwyaf posibl yn Rhenti Tai. Datblygwyd agwedd ddeublyg:

Ar gyfer preswylwyr a oedd yn wynebu "risg" fe ymatebodd y tîm i'w hargyfwng uniongyrchol

Defnyddiwyd dull mwy rhagweithiol gan ddefnyddio setiau data o systemau'r Cyngor i nodi preswylwyr nad oeddent yn hawliau eu hawliad llawn i fudd-daliadau. Mae'r model hwn wedi dangos nad yw tenantiaid agored i niwed yn aml iawn yn gallu hawlio eu hawliad llawn i ystod o fudd-daliadau.

Ers mis Ebrill 2020 mae'r tîm wedi cefnogi preswylwyr cymwys i sicrhau incwm blynyddol ychwanegol o fwy na £4.5 miliwn.

Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi gwneud 3,263 o Daliadau Hunanynysu, gwerth £2,108,500.00, a 5,743 o Daliadau Tanwydd Gaeaf, gwerth £573,400 (y ffigurau hyd at 11/01/21).

Bydd y Cyngor yn cydnabod bod y cymorth a ddarparwyd wedi newid bywydau llawer o'n preswylwyr. O ganlyniad i'r cymorth a ddarparwyd gan y tîm, mae un teulu yn derbyn incwm blynyddol ychwanegol o £15,000 yn awr ac mae'r adborth gan y teulu yn dangos yr effaith mae'r tîm yn ei chael ar fywydau ein preswylwyr.

9. HYSBYSIAD O GYNNIG – AIL GARTREFI

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Hysbysiad o Gynnig a dderbyniwyd gan y Cynghorydd John Roberts ac a gefnogwyd gan y Cynghorwyr A. Angel, C. Bishop, A. Farina-Childs, R.W. Gough, J. Taylor, C. Mann, L. Whittle, P. Marsden, S. Cook, J. Pritchard, a T. Parry.

Nodwyd, yn unol â rheol gweithdrefn 11(3) y Cyfansoddiad, fod y Maer wedi caniatáu i'r Cyngor drafod y cynnig, heb drafod hynny yn gyntaf mewn pwyllgor trosolwg a chraffu er mwyn cyflymu'r materion.

Rhoddodd y Cynghorydd Roberts amlinelliad o'i Hysbysiad o Gynnig a mynegodd bryder ynghylch effaith gynyddol ail gartrefi ar gymunedau yng Nghymru ac ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Mynegodd bryder hefyd ynghylch y nifer gynyddol o eiddo gwag a oedd yn dirywio ac yn adfeilio a galwodd ar y Cyngor i edrych ar yr holl opsiynau a oedd ar gael, gan gynnwys cosbau ariannol, er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r broblem gynyddol o eiddo gwag yng Nghaerffili ac i gyfarwyddo Swyddogion i gyflwyno adroddiad yn cynnwys yr opsiynau cyn gynted â phosibl.

Wrth eilio'r hysbysiad o gynnig, mynegodd y Cynghorydd Cook, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Thai, ei gefnogaeth i'r adroddiad pellach ar eiddo gwag a disgrifiodd y gwaith a oedd yn cael ei wneud eisoes gan y Tîm Eiddo Gwag.

Ar y pwynt hwn, ceisiodd y Cynghorydd S. Skivens gyngor gan y Swyddog Monitro ynghylch datganiadau o fuddiant a dywedodd ei fod yn berchen ar ail eiddo y tu allan i'r Fwrdeistref Sirol. Cadarnhaodd y Swyddog Monitro mai ei gyngor oedd nad oedd datganiad o fuddiant yn yr achos hwn oherwydd bod y cynnig yn ymwneud ag eiddo gwag yn y fwrdeistref hon ac ni fyddai hyn yn ei atal rhag cymryd rhan yn y drafodaeth na'r bleidlais, ond y byddai'r mater o ddatgan yn fater i'r Cynghorydd Skivens. Derbyniodd y Cynghorydd Skivens y cyngor a chadarnhaodd na fyddai'n gwneud datganiad.

Mynegodd yr Aelodau eu cefnogaeth i'r cynnig ac er eu bod yn cytuno nad oedd Caerffili yn rhannu'r un lefelau o ail gartrefi ag awdurdodau eraill, roedd angen ymchwilio i'r nifer gynyddol o eiddo gwag a'r problemau maent yn eu hachosi mewn cymunedau a'u bod yn credu bod aildefnyddio'r eiddo yn ddatblygiad hollbwysig yn nhermau'r diffyg tai.

Gofynnodd Aelodau am eglurhad ar sut y gellir nodi ac adrodd eiddo gwag a gofynnodd a fyddai'n bosibl datblygu tudalen we/dolen we i alluogi'r cyhoedd i'w hadrodd i'r Cyngor.

Roedd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai yn cydnabod y gallai hyn fod yn ychwanegiad defnyddiol i'r wefan a dywedodd y byddai'n ymchwilio i hyn.

Roedd yr Aelodau yn cydnabod na fyddai'r mater yn un hawdd i'w ddatrys a chroesawyd y cynnig fel cam cadarnhaol ymlaen. Ceisiwyd eglurhad ar y nifer o eiddo gwag y Cyngor a'r amser y byddai ei angen i'w cyflwyno i'w haildefnyddio. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol, er nad oedd ganddo'r wybodaeth hon i law, byddai'n dosbarthu'r manylion ar ôl

y cyfarfod. Cadarnhaodd fod hyd yr amser adnewyddu yn ddibynnol iawn ar y cyflwr y gadawyd yr eiddo a bod effaith COVID wedi effeithio ar gynydd.

Yna, ceisiwyd eglurhad ynglŷn â Threth y Cyngor a sut y cafodd hyn ei godi ar eiddo gwag. Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'r Swyddog Adran 151 fod taliadau yn cael eu codi ond bod y broses hon yn un gymhleth iawn, a phe byddai'r Cyngor yn cefnogi'r cynnig byddai'n fodlon cynnwys y pwnc mewn unrhyw adroddiad pellach i'w ystyried gan Aelodau.

Yna, gofynnodd yr aelodau faint o eiddo gwag a oedd wedi'u caffael yn flaenorol drwy'r opsiwn hawl i brynu ac a fyddai'n bosibl i'r Cyngor brynu'r rhain yn ôl i'w defnyddio. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'n gwneud ymholiadau pellach ynghylch y niferoedd a dywedodd er nad oedd hyn wedi'i wneud mewn niferoedd, bu achlysuron yn y gorffennol lle mae'r Cyngor wedi ail-brynu eiddo ac yn archwilio pob opsiwn tai.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth cynigiwyd ac eiliwyd i gefnogi'r hysbysiad o gynnig a chafwyd cadarnhad llafar a thrwy Microsoft Forms, gyda 55 o Blaid ac Ataliwyd 1 bleidlais

PENDERFYNWYD i gefnogi'r cynnig.

10. HYSBYSIAD O GYNNIG – YR ARGYFWNG YNNI CENEDLAETHOL

Rhoddwyd ystyriaeth i hysbysiad o gynnig a dderbyniwyd gan y Cyngorydd P. Marsden ac a gefnogwyd gan y Cyngorwyr E.M. Aldworth, J. Pritchard, N. George, E. Stenner, A. Whitcombe, R. Whiting, S. Cook, M. Evans, C. Andrews, D. Havard, R. Saralis, W. David, S. Morgan, M. Adams, B. Miles, A. Collis, G. Kirby, A. Higgs, E. Forehead, J. Ridgewell, D. Price, C. Thomas, C. Bezzina, L. Jeremiah, A. Hussey, D. Harse, D. T. Davies, C. Forehead, W. Williams, T. J. Williams, G. Johnston, C. Mann, K. Etheridge. P. Leonard, D. Preece, A. Gair, A. Farina-Childs, C. Thomas, J. Stone, L. Harding, A. Leonard.

Rhoddodd y Cyngorydd Marsden amlinelliad o'i Hysbysiad o Gynnig a oedd yn galw ar y Cyngor i ysgrifennu at y Prif Weinidog a Changhellor y Trysorlys a galw am gyflwyno a gweithredu'r canlynol ar unwaith:-

Lleihau TAW ar Filiau Ynni i helpu teuluoedd a deiliaid tai.

Cyflwyno cap pris is newydd ar filiau ynni i ddiogelu deiliaid tai rhag codiadau gormodol mewn prisiau.

Cyflwyno grantiau neu fenthyciadau di-log er mwyn annog datrysiadau ynni adnewyddadwy, er enghraifft Solar / PV domestig i berchnogion preifat a busnesau lleol.

Mynegodd yr Arweinydd ei phryderon am effaith ariannol y costau ynni sy'n cynyddu'n gyflym ar deuluoedd ac y gallai llawer o deuluoedd sy'n gweithio wynebu'r dewis rhwng 'gwresogi a bwyta'.

Wrth eilio'r cynnig, mynegodd y Cyngorydd Mann gefnogaeth i Grŵp Plaid Cymru am y cynnig a rhannodd y pryderon a godwyd gan yr Arweinydd. Yn benodol, wrth ychwanegu hyn at gostau uwch bwyd, cynyddu'r cyfraniadau yswiriant gwladol, a chytunwyd bod yn rhaid i Lywodraeth y DU weithredu i leihau'r baich ar deuluoedd.

Mynegodd yr Aelodau bryderon pellach ynglŷn â'r nifer o deuluoedd sy'n gweithio sy'n wynebu tloedi gyda dibyniaeth uwch ar fanciau bwyd ac er eu bod yn derbyn bod hyn yn fater cymhleth o gyflenwad a galw, roedd angen cymryd camau i ddiogelu'r rhai sy'n cael trafferthion ariannol. Trafododd yr Aelodau y ddibyniaeth ar danwyddau ffosil, yn benodol nwy, a bod yn rhaid

datblygu dulliau ynni mwy cynaliadwy er mwyn iddynt fod yn fwy fforddiadwy, ac y gellir trosglwyddo'r arbedion i'r cyhoedd.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth cynigiwyd ac eiliwyd i gefnogi'r hysbysiad o gynnig a chytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy Microsoft Forms a chadarnhad llafar.

PENDERFYNIAD i gefnogi'r hysbysiad o gynnig.

11. HYSBYSIAD O GYNNIG – CYDNABOD DYDD GŴYL DEWI FEL GŴYL Y BANC SWYDDOGOL

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Hysbysiad o Gynnig a dderbyniwyd gan y Cynghorydd T. Parry ac a gefnogwyd gan y Cyngorwyr C. Mann, J. Roberts a C. Elsbury.

Rhoddodd y Cynghorydd Parry amlinelliad o'r hysbysiad o gynnig a chadarnhaodd y byddai'n derbyn diwygiad i'r cynnig a gyflwynwyd gan y Cynghorydd P. Marsden.

Cadarnhaodd yr Arweinydd y dylid darllen yr Hysbysiad o Gynnig diwygiedig fel a ganlyn: 'Mae Dydd Gŵyl Dewi yn ddiwrnod pwysig o'r flwyddyn yng Nghymru ac i'n diwylliant cenedlaethol a chroesawn uchelgais y cynnig i ddathlu Diwrnod ein Nawddsant fel Gŵyl Gyhoeddus Ffurfiol, fodd bynnag credwn y dylid gwneud hynny yn y ffordd gywir, ni fyddai'n briodol na theg i gyflogeion CBSC yn unig elwa o Ŵyl Gyhoeddus, pan na fydd eu teuluoedd a'u cymdogion sydd wedi'u cyflogi rhywle arall yn gallu gwneud hynny, a dyna pam, er tegwch a chydardoldeb hoffem gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gofyn i Wyliau Cyhoeddus Cenedlaethol gael eu creu ar gyfer Nawddseintiau ein gwlad', a chafodd ei gynnig a'i eilio.

Yn dilyn trafodaeth a thrwy Microsoft Forms a chadarnhad llafar nodwyd bod 57 o blaid ac ataliwyd 1 bleidlais, cefnogwyd yr hysbysiad o gynnig diwygiedig gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD i gefnogi'r hysbysiad o gynnig.

ADRODDIADAU SWYDDOGION

12. DIWEDDARIAD AR REOLIADAU LLYWODRAETH CYMRU I SEFYDLU CYD-BWYLLGORAU CORFFORAETHOL A NEWIDIADAU DILYNOL I GYD-BWYLLGOR PRIFDDINAS-RANBARTH CAERDYDD

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn cyflwyno'r model llywodraethu a chyflenwi dros dro a fyddai'n ddigonol i weithredu'r gofynion statudol ar gyfer sefydlu Cyd-bwyllgor Corfforaethol y De-ddwyrain. Roedd yr adroddiad hefyd yn cyflwyno'r dull 'deuol' o weithredu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ochr yn ochr â cham 'lleiafswm' gweithredu'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol cyn i Gyd-bwyllgor Corfforaethol y De-ddwyrain bennu ei gyllideb statudol cyntaf ar 31 Ionawr 2022.

Roedd yr adroddiad hefyd yn ceisio hysbysu'r Cyngor ynghylch y camau cynnydd nesaf yn unol â datrys y rhwystrau presennol at weithredu dull 'codi a symud' integredig sy'n ceisio dod â Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chyd-bwyllgor Corfforaethol y De-ddwyrain ynghyd yn un model llywodraethiant economaidd rhanbarthol.

Manteisiodd yr Aelodau ar y cyfle i ailddatgan eu pryderon ynghylch y llyf o wybodaeth i aelodau'r meinciau cefn ac nad oedd y math hwn o strwythur sefydliadol yn hwyluso ymgysylltiad â phob Aelod, sy'n golygu eu bod wedi'u heithrio o brosesau.

Ceisiwyd eglurhad ynghylch sut y byddai'r Cynlluniau Datblygu Lleol yn cyd-fynd â'r dull rhanbarthol hwn a sut y gallai'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol weithio mewn cydweithrediad â'r uwchgylluniau amrywiol sy'n cael eu datblygu. Cyfeiriwyd yn benodol at y cyfleoedd buddsoddi angenrheidiol yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol a cheisiwyd sicrwydd na fyddai'r ardal hon yn cael ei hanghofio. Cytunodd yr Aelodau y byddai'n hollbwysig sicrhau buddsoddiad ar gyfer yr ardal hon ac yna cyfeiriwyd at Uwchgyllun Blaenau'r Cymoedd a gwaith gwella Ffordd Blaenau'r Cymoedd a sut y dylid manteisio arnynt i annog buddsoddiad.

Rhodddwyd sicrwydd ar y fframwaith datblygu a'r dull 3 haen sy'n ategu'r cynlluniau amrywiol, sy'n sicrhau eu bod yn cydweithio ac nad ydynt yn mynd yn groes i'w gilydd.

Trafodwyd llywodraethiant a'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol ac esboniwyd y cyfleoedd craffu, disgrifiwyd yr angen am waith rhanbarthol a'r cyfleoedd y byddai'r rhain yn eu creu. Darparodd y Prif Weithredwr sicrwydd pellach y potensial heb ei ryddhau y byddai Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ei greu a bod y cam nesaf hwn yn gynydd naturiol a fyddai'n rhyddhau cyfleoedd buddsoddi sylweddol y byddai ond yn bosibl i ôl-troed rhanbarthol ei hwyluso.

Dychwelodd y drafodaeth i'r cyfleoedd buddsoddi a'r bylchau sgiliau yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol a sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain. Nododd yr Aelodau y byddai'r gwelliannau i'r cysylltiadau Metro a threnau yn helpu i hwyluso mwy o fynediad i ddinasoedd ond ystyriwyd bod angen archwilio datblygiadau i ddenu pobl o dde'r Fwrdeistref Sirol i'r gogledd fel blaenoriaeth. Nodwyd bod clwstwr gwyddorau meddygol/bywyd eisoes yn datblygu yn ardal Rhymni, gyda chwmnïau rhyngwladol yn dewis buddsoddi yno ac y byddai'r Cyngor yn gweithio gyda chwmnïau fel y rhain i sicrhau cyfleoedd pellach gan gynnwys uwchsgilio cyflogaion a rhyddhau tir ar gyfer cyfleoedd datblygu yn y dyfodol.

Cydnabu'r Aelodau fod rhinwedd i gynllunio ar ôl-troed rhanbarthol ond bod yn rhaid uno'r berthynas gydag uchelgeisiau strategol yr awdurdod ei hun mewn achos cyffredin. Mynegwyd pryder nad oedd unrhyw arian yn gysylltiedig â datblygiad Uwchgyllun Blaenau'r Cymoedd ac er bod y gwaith o ddatblygu Ffordd Blaenau'r Cymoedd wedi'i ddisgwyl yn fawr, roedd gwaith ar gysylltiadau eraill rhwng y gogledd a'r de, er enghraifft yr A469 yn parhau heb eu datrys, a cheisiwyd sicrwydd bod hyn yn parhau i gael ei ystyried yn flaenoriaeth gan y Cyngor hwn. Cadarnhaodd yr Arweinydd fod y Cabinet yn parhau i lloio Llywodraeth Cymru ynghylch yr A469 a dywedodd ei fod yn parhau i fod yn fater allweddol ac y byddent yn parhau i frwydro i sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu cwblhau.

Cadarnhaodd Aelod, ar ôl amheuan blaenorol ynghylch Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ar ôl gwrandao ar y drafodaeth a'r buddsoddiad a sicrhawyd yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol, ystyriwyd bod hyn yn dangos yn glir, fwy nag unrhyw beth arall, yr angen gwirioneddol am ddull gweithredu rhanbarthol.

Ceisiwyd eglurhad ynghylch gwerth y buddsoddiad a wnaed yng ngogledd y Fwrdeistref Sirol o gymharu â buddsoddiad yn y de. Cadarnhaodd Swyddogion, er nad oedd y wybodaeth hon ar gael ganddynt, byddai'n cael ei dosbarthu i'r Aelodau ar ôl y cyfarfod.

Ar ôl ystyried hyn yn llawn, cynigiwyd ac eiliwyd, yn amodol ar argymhelliad ychwanegol yn 3.8 o adroddiad y Swyddog i ddarlenn 'ar ôl datblygu strwythur Cyd-bwyllgor Corfforaethol y llywodraethu y dylid cynnull Seminar Aelodau cyn cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet ei gymeradwyo', y dylid cymeradwyo'r argymhellion yn adroddiad i Swyddog a thrwy Microsoft Forms a chadarnhad llafar a nodwyd bod 49 o Blaid, 1 yn Erbyn ac Ataliwyd 1 bleidlais, cytunwyd ar hyn gan y mwyafrif a oedd yn bresennol.

PENDERFYNWYD: -

1. I nodi'r model llywodraethu a chyflenwi dros dro ar gyfer gweithredu Cyd-bwyllgor Corfforaethol y De-ddwyrain a'r trefniadau 'deuol' a gynigiwyd ar draws gweithrediad Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ochr yn ochr â gweithrediad cychwynnol Cyd-bwyllgor Corfforaethol 'lleiaf' ac y gellir gweithredu'r dull 'codi a symud' arfaethedig yn y cyfamser.
2. I nodi'r gofyniad i'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol bennu a chymeradwyo cyllideb ar neu cyn 31 Ionawr 2022 a'r camau a nodir yn yr adroddiad i alluogi hynny.
3. I nodi'r risgiau a'r materion a gyflwynir yn yr adroddiad hwn sy'n galw am waith monitro, lliniaru a rheoli parhaus.
4. I nodi'r cais a wnaed gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd i Lywodraeth Cymru ddiwygio'r rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol i newid y dyddiad y bydd y dyletswyddau uniongyrchol yn dechrau o dan y Rheoliadau o 28 Chwefror 2022 i 30 Mehefin 2022.
5. I nodi'r Rheolau Sefydlog drafft yn Atodiad 1 sy'n nodi'r gofynion cychwynnol a'r model gweithredu ar gyfer y Cyd-bwyllgor Corfforaethol yn ogystal â'r materion cychwynnol i'w trafod yn y cyfarfod cyntaf ar 31 Ionawr 2022.
6. I nodi'r gwaith parhaus gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a'i Gynghorau cyfansoddol i weithio gyda Llywodraeth Cymru, Archwilio Cymru a chynghorwyr, fel y bo'n briodol, i helpu i i ddatrys y materion sy'n weddill lle bynnag y bo'n bosibl.
7. Cefnogi Arweinydd y Cyngor yn ei dyletswydd i ystyried a phennu cyllideb gyntaf Cyd-bwyllgor Corfforaethol y De-ddwyrain ar 31 Ionawr 2022 er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â deddfwriaeth yn ôl yr angen.
8. Ar ôl datblygu strwythur Cyd-bwyllgor Corfforaethol llywodraethu parhaol, y bydd Seminar Aelodau yn cael ei gynnull cyn cyflwyno adroddiad pellach i'r Cabinet ei gymeradwyo.

13. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH Y CYNGOR 2022/23

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor o'r Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.

Nododd yr Aelodau ei bod yn ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor yn flynyddol a disgresiwn lleol ac mae'r adroddiad yn argymhell y dylai'r Cyngor barhau i weithredu Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 ar yr un sail â'r cynllun a ddefnyddiwyd yn 2021/22.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhellion yn adroddiad y Swyddog a chytunwyd yn unfrydol ar hyn drwy Microsoft Teams a chadarnhad llafar.

PENDERFYNWYD y bydd y Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor presennol ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 yn parhau ar yr un sail â'r cynllun a ddefnyddiwyd yn 2021/22.

14. DEDDF GAMBLO 2005 – ADOLYGIAD O DDATGANIAD POLISI TRWYDDEDU

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn hysbysu'r Cyngor ynghylch canlyniad yr ymgynghoriad a gynhaliwyd i adolygu'r Datganiad Polisi Gamblo a Thrwyddedu a cheisiodd gymeradwyaeth y Cyngor i'r Datganiad Polisi Gambo a Thrwyddedu diwygiedig, fel y'i nodir yn Atodiad 1 i adroddiad y Swyddog.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhellion yn adroddiad y Swyddog a chytunwyd yn unfrydol ar hyn drwy Microsoft Teams a chadarnhad llafar.

PENDERFYNWYD i gymeradwyo'r Datganiad Polisi Gamblo a Thrwyddedu yn Atodiad 1 i adroddiad y Swyddog.

15. CYNLLUN PEILOT PLEIDLEISIO YMLAEN LLAW - ETHOLIAD LLYWODRAETH LEOL MAI 2022

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i gymryd rhan yn y cynlluniau peilot etholiadol ymlaen llaw a oedd yn cael eu llywio gan Lywodraeth Cymru yn yr etholiadau Llywodraeth Leol a Chynghorau Cymuned i ddod. Cynhelir pleidleisiau ymlaen llaw ddydd Sadwrn 30 Ebrill 2022 a dydd Sul 1 Mai 2022, ac roedd hyn yn ychwanegol at yr etholiad a gynhelir ddydd Iau 5 Mai 2022.

Nododd yr Aelodau yr amod yn yr adroddiad ynglŷn â sicrhau bod systemau TG angenrheidiol ar waith a cheisiwyd eglurhad ynghylch a oedd hyn yn gysylltiedig â bwrw pleidleisiau yn electronig neu gymorth cefn swyddfa ar gyfer y broses. Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Etholiadol fod hyn yn gysylltiedig â phrosesau y tu ôl i'r llenni er mwyn sicrhau integreidd y bleidlais.

Croesawodd yr Aelodau y cynllun peilot ymlaen llaw a gobeithiwyd y gallai hyn annog pobl ifanc sy'n pleidleisio am y tro cyntaf i gymryd rhan ym mhroses yr etholiad. Dywedodd y Swyddog y byddai'r cyfle i bleidleisio ymlaen llaw yn cael ei gynnwys ar y cardiau pleidleisio ac y byddai'r Tîm Cyfathrebu yn helpu i ymgysylltu drwy'r cyfryngau cymdeithasol a gwefan y Cyngor.

O ran agwedd ddigidol pleidleisio, holodd yr Aelodau a fyddai hyn yn cael ei annog ar gyfer etholiadau yn y dyfodol. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod Swyddogion Canlyniadau yn lobbïo Llywodraeth Cymru i ystyried symud i bleidleisio electronig a chytunodd yr Aelodau y byddai hwn yn gam cadarnhaol ymlaen.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth cynigiwyd ac eiliwyd i gymeradwyo'r argymhellion yn adroddiad y Swyddog a chytunwyd yn unfrydol ar hyn drwy Microsoft Teams a chadarnhad llafar a nodwyd bod 43 o Blaid ac Ataliwyd 1 bleidlais.

PENDERFYNWYD y byddai'r cynllun peilot pleidleisio ymlaen llaw yn cael ei gynnal yn Nhŷ Penallta ddydd Sadwrn 30 Ebrill a dydd Sul 1 Mai yn amodol ar sicrhau bod y Systemau TG angenrheidiol ar waith.

16. Y LAWNT, RHYMNI – MATERION CWLFERT A'R COSTAU DILYNOL YCHWANEGOL

Rhodddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd wedi'i ystyried fel eitem frys ac esempt gan y Cabinet ar 24 Tachwedd 2021.

Mae'r cyfansoddiad yn galw i unrhyw benderfyniad a wneir fel mater o frys gael ei adrodd yng nghyfarfod nesaf y Cyngor, o ystyried y rheswm dros ei natur frys. Yno, cyflwynwyd adroddiad i'r Cyngor at sylw'r Aelodau.

Nododd yr Aelodau y rhesymau dros y natur frys a'r penderfyniad a wnaed gan y Cabinet.

PENDERFYNWYD i nodi'r adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 19:25pm

Wedi'i gymeradwyo fel cofnod cywir ac yn ddarostyngedig i unrhyw ddiwygiadau neu gywiriadau a gytunwyd a'u cofnodi yng nghofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2022 a'u llofnodi gan y Maer.

MAER